CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA): cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer sesiynau cymorth anfeddygol o bell ac asesiadau o anghenion astudio o bell (SFWIN 07/2021)

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer sesiynau o bell am gymorth arbenigol anfeddygol ac asesiadau o bell o anghenion astudio.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-myfyrwyr-anabl-lma-cadarnhad-or-trefniadau-ar-gyfer-sesiynau-cymorth-anfeddygol-o-bell-ac** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mewn ymateb i'r sefyllfa a achoswyd gan bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, gwnaed nifer o newidiadau i elfennau o ddarpariaeth LMA, yn enwedig o ran darparu asesiadau o anghenion astudio a chymorth anfeddygol o bell.

Tynnir sylw at y newidiadau hyn drwy gyhoeddi 'cwestiynau cyffredin' yn rheolaidd, a gyhoeddwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Mae'r hysbysiad gwybodaeth hwn yn cadarnhau, wrth symud ymlaen, y bydd yr egwyddorion allweddol canlynol ar gyfer darparu asesiadau o anghenion astudio a chymorth anfeddygol yn berthnasol:

- Bydd myfyrwyr yn parhau i allu dewis asesiad o anghenion astudio o bell os dymunant, a lle bo'n briodol gwneud hynny, heb fod angen awdurdodiad ymlaen llaw gan SLC. Rhaid i bob canolfan asesu ac allgymorth allu darparu asesiadau o anghenion o bell ac wyneb yn wyneb, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y dewis hwnnw. Rhaid i unrhyw ddarparwr asesu anghenion astudio nad yw'n gallu darparu'r dewis hwnnw roi gwybod i dîm LMA Cyllid Myfyrwyr Cymru. Rhaid tynnu sylw at y dull asesu anghenion astudio a gynhaliwyd ar adroddiad asesu anghenion astudio'r myfyriwr a gyflwynir i Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Bydd myfyrwyr yn parhau i allu dewis cael sesiynau cymorth anfeddygol o bell os dymunant heb fod angen awdurdodiad ymlaen llaw gan SLC. Rhaid i bob darparwr cymorth anfeddygol allu darparu sesiynau cymorth anfeddygol o bell ac wyneb yn wyneb, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y dewis hwnnw. Gall myfyriwr ddewis cymysgu'r dulliau hynny fel y bo'n briodol yn ôl ei ofynion.

Mae'n bwysig bod yr egwyddorion uchod yn cael eu darllen bob amser ar y cyd â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir arnom gan gyfyngiadau COVID-19, wrth i'r rhain newid, felly hefyd bydd eich gallu i ymateb i anghenion cwsmeriaid. Rhaid i bob darparwr sicrhau bod ei arferion yn cydymffurfio â'r rheoliadau sydd ar waith ar adeg yr asesiad o anghenion astudio, neu ei fod yn darparu'r cymorth priodol. Rhaid i ddarparwyr werthfawrogi ymateb unigol pob myfyriwr i'r sefyllfa

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-myfyrwyr-anabl-lma-cadarnhad-or-trefniadau-ar-gyfer-sesiynau-cymorth-anfeddygol-o-bell-ac** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sy'n newid.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-myfyrwyr-anabl-lma-cadarnhad-or-trefniadau-ar-gyfer-sesiynau-cymorth-anfeddygol-o-bell-ac** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.